Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cysylltiadau a phrosesau rhynglywodraethol
## Papur Briffio

Mawrth 2025



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cysylltiadau a phrosesau rhynglywodraethol
## Papur Briffio

Mawrth 2025

*Cafodd y papur briffio hwn ei ddiweddaru ddiwethaf ar fore 26 Mawrth 2025.*

**Awduron:**
Adam Cooke a Josh Hayman

**Mae'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn cynnal sesiwn ar 28 Mawrth 2025 gydag Eluned Morgan AS, y Prif Weinidog, a fydd yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â "chysylltiadau a phrosesau rhynglywodraethol".**

**Mae'r papur briffio hwn yn nodi rhai o'r pynciau allweddol y gallai'r Pwyllgor eu trafod.**

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 1**

**2. Cysylltiadau Rhynglywodraethol ..... 2**

Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol ..... 2

Strwythurau rhynglywodraethol ..... 2

Cyngor y Gwledydd a'r Rhanbarthau ..... 4

Goruchwyliaeth ryngseneddol o gysylltiadau rhynglywodraethol ..... 5

**3. Cydsyniad Deddfwriaethol ..... 6**

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Chweched Senedd ..... 6

Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio Biliau'r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig ..... 8

Diwygio Confensiwn Sewel ..... 8

Biliau Aelodau Preifat - Bil Oedolion sy'n Derfynol Wael (Diwedd Oes) ..... 9

**4. Datganoli a diwygio pellach ..... 11**

Fframwaith cyllidol ..... 11

Anghydfodau ynghylch cyllid rheilffyrdd ..... 13

Cyfiawnder ..... 14

Lles ..... 15

Pwerau'r Alban ..... 15

Siarter Budd-daliadau Cymru ..... 16

Ystad y Goron ..... 17

Bil Ystad y Goron ..... 17

# 1. Cyflwyniad

Ar **28 Mawrth 2025**, mae'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn craffu ar waith y Prif Weinidog, Eluned Morgan AS, ar gysylltiadau a phrosesau rhynglywodraethol. Cytunodd y Pwyllgor ar bwnc y cyfarfod hwn yn ei gyfarfod ar **13 Rhagfyr 2024**.

# 2. Cysylltiadau Rhynglywodraethol

Mae cysylltiadau rhynglywodraethol yn cyfeirio at y ffordd y mae llywodraethau'r DU yn rhyngweithio ac yn gweithio gyda'i gilydd.

Ers Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Gorffennaf 2024, mae **Llywodraeth Cymru** a **Llywodraeth y DU** wedi mynnu bod cysylltiadau wedi eu "hailosod".

## Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

Yn 2021, cytunodd Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (sy'n gweithredu ar ran holl Bwyllgorau'r Senedd) ar y wybodaeth y byddai Llywodraeth Cymru yn ei darparu am ei chyfranogiad mewn cysylltiadau rhynglywodraethol ffurfiol. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd rhynglywodraethol ar lefel gweinidogol, concordatau, cytundebau, fframweithiau cyffredin a memoranda cyd-ddealltwriaeth. Gelwir y cytundeb hwn y **Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol**.

Fel rhan o'r Cytundeb, cytunodd Llywodraeth Cymru i roi o leiaf mis o rybudd i Bwyllgorau am gyfarfod rhynglywodraethol ffurfiol. Mae hyn er mwyn i Bwyllgorau allu codi materion sy'n berthnasol i'r cyfarfod ymlaen llaw gyda Gweinidogion Cymru. Cytunodd Llywodraeth Cymru hefyd i roi crynodeb ysgrifenedig o'r materion a drafodwyd o fewn pythefnos i'r cyfarfod yn cael ei gynnal, cyn belled ag y bo modd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gysylltiadau rhynglywodraethol. **Dywedodd y Prif Weinidog ym mis Medi** 2024 y byddai'r adroddiad ar gyfer 2023 – 2024 yn cael ei osod "cyn bo hir". Ar adeg ysgrifennu'r papur briffio hwn, nid yw wedi'i gyhoeddi.

## Strwythurau rhynglywodraethol

Ym mis Ionawr 2022, cytunodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ar **strwythurau newydd ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol**. Sefydlwyd system tair haen, yn cynnwys:

1. Grwpiau Rhyngweinidogol sy'n canolbwyntio ar bolisi (IMGs);
2. Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol (IMSC) i oruchwylio'r IMGs ac i drafod materion trawsbynciol, a Phwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol Cyllid (F:ISC) i drafod materion ariannol trawsbynciol; a
3. Chyngor y Prif Weinidog a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig ar y brig.

Roedd yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol **yn cynnwys cynlluniau** ar gyfer ysgrifenyddiaeth annibynnol sy'n cynnwys swyddogion o'r pedair llywodraeth i helpu i hwyluso cysylltiadau. **Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2025** fod yr ysgrifenyddiaeth bellach wedi'i staffio'n llawn.

Rhan o rôl yr ysgrifenyddiaeth yw hwyluso gweithdrefn annibynnol ar gyfer datrys anghydfodau. **Dywedodd y Prif Weinidog ym mis Medi 2024** nad yw'r broses wedi'i defnyddio eto. Nid yw'n glir ar hyn o bryd beth fyddai'n arwain Llywodraeth Cymru i sbarduno'r broses.

Mae Ysgrifennydd Gwladol presennol Cymru, Jo Stevens AS, wedi **awgrymu** bod pob lefel o'r strwythurau ffurfiol ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol wedi'u tanddefnyddio yn y blynyddoedd diwethaf. **Dywedodd y Prif Weinidog ym mis Chwefror** nad oedd strwythurau ffurfiol wedi cael eu defnyddio rhyw lawer o dan Lywodraeth flaenorol y DU.

Yn yr wyth mis ers etholiad cyffredinol y DU yn 2024, cadarnhawyd bod 16 o gyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol wedi cyfarfod yn cynnwys Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU)[1]. Nid yw hyn yn awgrymu cynnydd yn y defnydd o strwythurau ffurfiol o gymharu â blynyddoedd diweddar; **nododd dadansoddiad** gan Ymchwil y Senedd y cynhaliwyd 23 o gyfarfodydd ffurfiol yn 2022 a 35 o gyfarfodydd ffurfiol yn 2023.

Mae adroddiadau Llywodraeth Cymru, o rybudd ymlaen llaw ar gyfer cyfarfodydd sydd i ddod a chrynodebau yn dilyn cyfarfodydd, yn anghyson. Ar gyfer rhai cyfarfodydd, fel cyfarfod cyntaf y **Grŵp Rhyngweinidogol Iechyd a Gofal Cymdeithasol** ym mis Rhagfyr 2024, nid yw'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi darparu hysbysiad, a **darparwyd crynodeb** byr dros dri mis ar ôl y cyfarfod.

Mae ansawdd y crynodebau o gyfarfodydd hefyd yn amrywio. Er enghraifft, crynodeb o gyfarfod diweddar o'r F:ISC yn cynnwys dros 200 gair o bwyntiau trafod, tra bod crynodeb o'r **Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Masnach** yn cynnwys llai na 30 gair o bwyntiau trafod.

Er bod cyfarfodydd ffurfiol wedi parhau, mae cyfarfodydd y tu allan i'r strwythurau ffurfiol hefyd wedi'u cynnal rhwng Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru. Yn gyffredinol **grybwyllwyd y rhain yn fras, a cheir adroddiadau arnynt ar ffurf datganiadau**, neu **cyfeirir atynt ar gyfryngau cymdeithasol**. Nid yw

[1] Cyfarfodydd 'wedi'u cadarnhau' yw pan fydd crynodeb wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru neu mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi hysbysiad/datganiad i'r wasg. Y cyfanswm yw 17 os yw **Tasglu Plannu Coed y DU** yn cael ei gynnwys.

cyfarfodydd y tu allan i strwythurau ffurfiol yn dod o dan y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, ac felly nid oes gofyniad i Lywodraeth Cymru ddarparu crynodeb o'r trafodaethau.

Ym mis Chwefror 2025, **nododd y Prif Weinidog** fod adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol yn cael ei gynnal.

Cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid y Senedd ei **adroddiad ar Gysylltiadau Cyllidol Rhynglywodraethol** ym mis Hydref 2024. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y rhoddir cysylltiadau rhynglywodraethol ar sail statudol.

Wrth ddatgan bod y strwythurau rhynglywodraethol ffurfiol presennol wedi cynnig system a all helpu i hwyluso cysylltiadau da, dywedodd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio bwrw ymlaen a gweithredu ar sail casgliadau ac argymhellion y **Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru** ('y Comisiwn').[2]

Argymhellodd y Comisiwn y dylai Llywodraeth Cymru gynnig y "y dylai Senedd San Steffan ddeddfu ar gyfer mecanweithiau rhynglywodraethol er mwyn sicrhau dyletswydd o gydweithredu a pharch cydradd rhwng llywodraethau'r DU". **Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n** ceisio bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn.

## Cyngor y Gwledydd a'r Rhanbarthau

Sefydlodd Llywodraeth y DU fforwm rhynglywodraethol newydd, Cyngor y Gwledydd a'r Rhanbarthau, **a gyfarfu am y tro cyntaf** yng Nghaeredin ar 11 Hydref 2024. Mae'r Cyngor, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weinidog, yn dod â phenaethiaid y DU a'r llywodraethau datganoledig ynghyd, yn ogystal â meiri awdurdodau cyfun Lloegr.

Mae cylch gorchwyl y Cyngor, sy'n nodi aelodaeth, amcanion a pha mor aml y cynhelir cyfarfodydd, **ar gael yma**.

Mae cyfarfod nesaf y Cyngor **wedi'i drefnu** ar gyfer gwanwyn 2025.

Nid yw'n glir pa rôl sydd gan y Cyngor mewn perthynas â'r strwythurau presennol ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol, yn enwedig Cyngor y Prif Weinidog a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig. **Dywedodd Iarll Kinnoull ym mis Hydref 2024**:

[2] I gael rhagor o wybodaeth am y Comisiwn, gweler Adran 4 y papur briffio

> ...for the moment, the Council of the Nations and Regions and the intergovernmental relations body will continue in parallel.

Fodd bynnag, ar 20 Tachwedd 2024, fe wnaeth Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn, Pat McFadden AS, **awgrymu** bod y Cyngor y Gwledydd a'r Rhanbarthau newydd wedi disodli Cyngor y Prif Weinidog a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig, ond y byddai cyfleoedd ar gyfer cyfarfodydd dwyochrog a phedairochrog rhwng y Prif Weinidog a Phrif Weinidogion y llywodraethau datganoledig yn y dyfodol.

Ar 27 Tachwedd 2024, **dywedodd** Chwip Llywodraeth y DU, y Farwnes Anderson o Stoke-on-Trent, nad oedd yn wir bod y Cyngor blaenorol wedi darfod.

Ar 9 Rhagfyr 2024 **dywedodd** Huw Irranca-Davies AS, Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, fod y ddau yn dal i fodoli a bod y ddau yn bwysig.

Ym mis Mawrth 2025, **dywedodd Llywodraeth y DU** y bydd y ddau gyngor lefel uchel presennol yn cyfarfod ar yr un diwrnod yn y dyfodol (fel y digwyddodd ar 11 Hydref), i osgoi dyblygu a sicrhau cysylltiadau rhynglywodraethol effeithlon.

## Goruchwyliaeth ryngseneddol o gysylltiadau rhynglywodraethol

Mae'r **Fforwm Rhyngseneddol** yn dod â chynrychiolwyr ynghyd o ddeddfwrfeydd y DU. Mae blaenoriaethau'r Fforwm yn cynnwys goruchwylio cysylltiadau rhynglywodraethol ac effaith trefniadau cyfansoddiadol ar y broses ddeddfwriaethol. Cynrychiolir y Senedd yn y Fforwm gan Gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Cynhaliwyd **cyfarfod diweddaraf** y Fforwm ym mis Tachwedd 2024. Un pwynt gweithredu y cytunwyd arno yn y cyfarfod oedd:

> ...archwilio sut y gall annog Gweinidogion a swyddogion y DU i ymateb yn gadarnhaol ac yn amserol i geisiadau gan bwyllgorau mewn gweinyddiaethau datganoledig i roi tystiolaeth yn ysbryd dwyochredd.

Mae Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi gwahodd **Jo Stevens AS** a **Pat McFadden AS** i ymddangos gerbron y Pwyllgor i drafod cysylltiadau rhynglywodraethol. Er i'r gwahoddiadau hyn gael eu hanfon ym mis Medi a mis Hydref 2024, nid yw'r naill na'r llall wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor eto.

# 3. Cydsyniad Deddfwriaethol

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei osod yn y Senedd pan fydd Bil y DU yn ymdrin â meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru. Yna mae'r Senedd yn cynnal pleidlais ynghylch a ddylai roi ei chydsyniad i Senedd y DU ddeddfu ar ei rhan ai peidio.

Mae cynigion yn amodol ar bleidlais ddeuaidd ynghylch a ddylid rhoi caniatâd ai peidio. Nid oes cyfle i Aelodau o'r Senedd gynnig gwelliannau i'r Biliau. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi awgrymu'n ddiweddar y byddent yn agored i awgrymiadau gan Aelodau ar gyfer gwelliannau i Fil i Lywodraeth Cymru eu cyflwyno i Lywodraeth y DU **os ydynt yn cyd-fynd â'i gofynion fel Llywodraeth Cymru**.


Er na all penderfyniadau'r Senedd ar gydsyniad deddfwriaethol atal Bil y DU rhag dod yn gyfraith, **mae Confensiwn Sewel yn datgan** na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu os bydd deddfwrfa ddatganoledig yn peidio â rhoi cydsyniad. Fodd bynnag, bu nifer o achlysuron lle **nad yw'r confensiwn hwn wedi'i ddilyn**.

## Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Chweched Senedd

Ar adeg etholiad cyffredinol y DU yn 2024, roedd 115 o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol neu Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ymwneud â 47 o Filiau wedi'u gosod yn y Chweched Senedd.

Ers i Lywodraeth newydd y DU ddod i rym, mae 28 o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol wedi'u gosod yn ymwneud ag 13 o Filiau, gan ddod â'r cyfanswm i 143 o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol neu Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ymwneud â 60 o Filiau yn y Chweched Senedd. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o gymharu â thymhorau blaenorol y Senedd.

**Nifer Biliau'r DU y gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer yn ystod pob tymor y Senedd**




Ym mis Gorffennaf 2024, **ysgrifennodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Jo Stevens AS, a Gweinidogion eraill y DU sydd â chyfrifoldeb dros ddatganoli a materion cyfansoddiadol. Tynnodd y Pwyllgor sylw at feysydd lle mae o'r farn y gallai Llywodraeth y DU wneud gwelliannau i ddeddfu lle mae darpariaethau'n croestorri â chymhwysedd deddfwriaethol datganoledig. Anfonwyd copi o'r llythyr at Lywodraeth Cymru.

Mewn **ymateb i lythyr y Pwyllgor**, dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru fod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ailosod cysylltiadau rhynglywodraethol ac i gynnal a chryfhau Confensiwn Sewel. Dywedodd y bydd hyn yn amlwg yn y dull a ddefnyddir ar gyfer deddfu.

Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod Llywodraeth y DU yn bwriadu gweithio'n agos gyda'r llywodraethau datganoledig i ddod i gonsensws a chyflwyno deddfwriaeth sy'n gwasanaethu pobol ar draws y Deyrnas Unedig.

Ym mis Gorffennaf 2024, croesawodd **Llywodraeth Cymru** y "trafodaethau cynnar ac ystyriol" ar ddeddfwriaeth a fydd yn berthnasol i Gymru cyn cyhoeddi **rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU** ar gyfer y sesiwn seneddol hon.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi codi pryderon bod dull Llywodraeth Cymru o ddeddfu gyda Llywodraeth newydd y DU, lle mae Biliau Senedd y DU wedi'u defnyddio i gyflawni **nodau a rennir**, yn golygu bod **y Senedd yn cael ei gwthio i'r cyrion**.

Mae'r Pwyllgor wedi rhybuddio bod defnydd Llywodraeth Cymru o Filiau'r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig yn cynrychioli "**agwedd anffodus ac annerbyniol at ddatganoli**" a'i bod yn **eu hatgoffa o ddatganoli gweithredol** y Cynulliad Cyntaf a'r Ail Gynulliad.

Mae'r Pwyllgor wedi **codi pryderon** nad yw deddfu yn y modd hwn yn caniatáu i'r Senedd gyflawni ei rôl gyfansoddiadol briodol o ran craffu ar gyfraith Cymru mewn meysydd datganoledig.

Mae wedi cyhuddo Llywodraeth Cymru o '**efelychu**' polisïau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Lloegr heb waith i ddatblygu polisïau priodol, craffu manwl gan y Senedd, neu ymgysylltu llawn â sefydliadau rhanddeiliaid yng Nghymru sy'n cynrychioli pobl y gallai'r newid yn y gyfraith effeithio arnynt.

## Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio Biliau'r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig

Ym mis Hydref 2021, yn dilyn sesiwn dystiolaeth gyda'r cyn Gwnsler Cyffredinol, Mick Antoniw AS, darparwyd i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad **egwyddorion** Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio Biliau'r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig.

Ar 4 Rhagfyr 2024, gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol presennol, Julie James AS, **ysgrifennu at y Pwyllgor** i roi "fersiwn ddiwygiedig" o'r egwyddorion. Mae'r fersiwn hon yn cynnwys deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth am y tro cyntaf, gan nodi y dylai is-ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig gael ei deddfu gan Weinidogion Cymru pan fo cymhwysedd gweithredol.

Mae'r egwyddorion ar eu newydd wedd hefyd yn nodi y gall fod sefyllfaoedd lle y byddai "er budd gorau i Gymru" i ddarpariaeth gael ei chynnwys ym Miliau'r DU neu is-ddeddfwriaeth y DU. Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad **wedi nodi'n flaenorol** bod yr egwyddorion hyn "yn ddiffygiol" oherwydd yr "eithriad cyffredinol" hwn.

Ym mis Rhagfyr 2024, **nododd** y Cwnsler Cyffredinol nad oedd gan y Senedd rôl ddigonol o ran dylanwadu ar gynnwys Biliau'r DU lle mae Llywodraeth Cymru yn argymell cydsyniad deddfwriaethol. Ychwanegodd:

> I would be very keen to get the Senedd to think properly about at what point in that process we might usefully have a conversation with this committee, or some other committee...

## Diwygio Confensiwn Sewel

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi mynegi cefnogaeth i ddiwygio Confensiwn Sewel.

Mae'r cyn Brif Weinidog, Mark Drakeford AS, wedi siarad am yr angen i **'godeiddio'**

**Confensiwn Sewel**, tra bod y cyn Gwnsler Cyffredinol, Mick Antoniw AS, **wedi nodi nad yw'r Confensiwn** ar ei gryfaf ar hyn o bryd, gan ychwanegu bod angen ei roi ar sail draddodadwy er mwyn gwneud iddo weithio'n iawn. Roedd y sylwadau hyn yn dilyn **cynnydd yn nifer yr achosion** o fynd yn groes i Gonfensiwn Sewel.

**Argymhellodd** y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru y dylai Confensiwn Sewel fod yn gyfreithiol rwymol ac eithrio mewn amgylchiadau penodol a bennir ymlaen llaw gan y llywodraethau. Roedd Llywodraeth Cymru'n **cefnogi'r argymhelliad hwn** a dywedodd y byddai'n ceisio trafod opsiynau gyda llywodraethau'r DU.

**Dywedodd Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2024** ei bod:

> …wedi dadlau ers tro bod angen diwygio Confensiwn Sewel [a'i bod yn edrych] ymlaen at weithio gyda Llywodraeth newydd y DU, ynghyd â'r llywodraethau datganoledig eraill, gyda'r bwriad o gryfhau gweithrediad yr egwyddor sylfaenol hon o ddatganoli.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gryfhau Confensiwn Sewel, er mewn ffordd fwy cyfyngedig nag a awgrymwyd gan y Comisiwn. **Ymrwymodd maniffesto** Llafur y DU i sefydlu memorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd ar y Confensiwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod gwaith ymgysylltu ar y memorandwm newydd ar y gweill, **a'i bod yn benagored** ynghylch sut i ddiwygio'r Confensiwn.

## Biliau Aelodau Preifat - Bil Oedolion sy'n Derfynol Wael (Diwedd Oes)

Mae Rheol Sefydlog 29.2(ii) yn darparu bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Aelod Preifat perthnasol yn Senedd y DU ar ôl iddo gwblhau'r cyfnod diwygio cyntaf yn y Tŷ y'i cyflwynwyd ynddo.

Gan nad yw'r Biliau hyn yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU, maent yn dueddol o fod yn destun llai o ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gynnwys y Biliau a diwygiadau posibl iddynt.

Mae'r ***Bil Oedolion sy'n Derfynol Wael (Diwedd Oes)*** yn Fil Aelod Preifat a gyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin gan Kim Leadbitter AS. Ar hyn o bryd mae yn y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Diben y Bil yw caniatáu i oedolion â salwch angheuol, yn amodol ar fesurau diogelu ac amddiffyniadau, wneud cais am gymorth a chael cymorth i ddod â'u bywyd i ben.

Ym mis Hydref 2024, pleidleisiodd y Senedd yn erbyn cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi egwyddorion marw â chymorth ac i gefnogi Senedd y DU i gyflwyno deddf dosturiol o ran marw â chymorth yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, nid yw'r bleidlais hon yn rhwymol ac nid yw'n effeithio ar y broses cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil.

Pan ofynnwyd i Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip am effaith bosibl y Bil ar Gymru, **dywedodd wrth y Senedd** y bydd gan y Bil, os daw yn gyfraith, "oblygiadau mawr i Gymru" ond y caiff ei asesu o dan Reol Sefydlog 29 "pan fydd wedi mynd drwy'r camau perthnasol yn Senedd y DU".

Mae Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, hefyd wedi cadarnhau nad oes "**trafodaeth rhwng Llywodraethau**" ynghylch y Bil. Fodd bynnag, mae'r holl ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan **Darren Millar AS**, **Adam Price AS** ac **Andrew RT Davies AS** yn cyfeirio at gysathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddeall a chynllunio ar gyfer goblygiadau'r Bil i Gymru.

Mewn **tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Biliau Cyhoeddus** wrth ystyried y ddeddfwriaeth, dywedodd yr Athro Emyr Lewis, Athro Emeritws, Prifysgol Aberystwyth, er bod y Bil y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, nid yw hyn yn golygu nad oes angen ystyried agweddau penodol sy'n ymwneud â Chymru. Nododd y gellid dadlau y gallai fod mwy o angen am y gwaith craffu hwnnw o ystyried y tebygolrwydd y byddai llai o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru nag y byddai wedi bod pe bai hwn yn Fil Llywodraeth.

Mae'r Athro Lewis hefyd yn nodi ei bod yn debygol, os caiff y Bil ei ddeddfu, ei fod yn debygol o gael effaith sylweddol ar feysydd iechyd a gofal cymdeithasol, y mae'r ddau ohonynt yn fras o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a chyfrifoldeb gweithredol Gweinidogion Cymru.

# 4. Datganoli a diwygio pellach

Mae Llywodraeth Cymru wedi galw am ddatganoli pellach mewn sawl maes, gan gynnwys cyfiawnder a lles, yn ogystal ag am ddiwygiadau i'r fframwaith cyllidol.

Yn 2021, sefydlodd Llywodraeth Cymru y **Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**. Roedd ganddo ddau amcan cyffredinol:

1. Ystyried a datblygu opsiynau i ddiwygio'n sylfaenol strwythurau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig, y mae Cymru yn parhau'n rhan annatod ohoni
2. Ystyried a datblygu'r holl brif opsiynau blaengar i gryfhau democratiaeth Cymru a sicrhau gwelliannau i bobl Cymru.


**Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad terfynol** ar 18 Ionawr 2024, gan wneud cyfanswm o 10 argymhelliad. Amlygir argymhellion perthnasol yn y blychau isod.

## Fframwaith cyllidol

Daw mwyafrif helaeth cyllideb Cymru o grant bloc Llywodraeth y DU. Defnyddir Fformiwla Barnett gan Drysorlys EM i addasu'r cyllid a ddyrennir i Gymru drwy'r grant bloc, er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn gwariant ar wasanaethau cyhoeddus gan Lywodraeth y DU yn Lloegr ar gyfer meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Ariennir gweddill y gyllideb drwy drethi datganoledig. Y rhain yw Cyfraddau Treth Incwm Cymru, Ardrethi Annomestig, Treth Trafodiadau Tir (LTT) a Threth Gwarediadau Tirlenwi (LDT). Mae dadansoddiad o gyllid Llywodraeth Cymru wedi'i nodi isod.

### Crynodeb o gyllid Llywodraeth Cymru, 2025/26[3]




I gael rhagor o wybodaeth am fframwaith ariannu a phwerau benthyca Llywodraeth Cymru, gweler y **canllaw hwn gan Ymchwil y Senedd**.

Yn 2016, cytunodd Llywodraeth Cymru ar **fframwaith cyllidol** gyda Llywodraeth y DU sy'n nodi trefniadau cyllido Llywodraeth Cymru i gefnogi ei phwerau cyllidol datganoledig. Mae hyn yn cynnwys y model ar gyfer addasu'r grant bloc a ddefnyddir i benderfynu sut i addasu grant bloc Cymru er mwyn cyfrif am y trethi a ddatganolwyd i Gymru. Mae'r fframwaith yn cynnwys ffactor yn seiliedig ar anghenion sydd wedi'i bennu dros dro ar 105%. Pan fydd y cyllid o'i gymharu â Lloegr wedi cydgyfeirio i lefel y cytunwyd arni, cynyddir y ffactor hwn i 115%.

Yn 2024, **cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol y DU** fformiwla ariannu newydd yn seiliedig ar anghenion ar gyfer Gogledd Iwerddon. Byddai hyn yn arwain at Ogledd Iwerddon yn cael cynnydd o 24% yn fformiwla Barnett os yw ei chyllid yn llai na'i hangen cymharol fesul pen.

**Cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid y Senedd ei adroddiad** ar Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol ym mis Hydref 2024. Mae'r adroddiad yn gwneud cyfres o argymhellion yn ymwneud â diwygio fframwaith cyllidol Cymru, gan gynnwys i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU i eiriol dros fecanwaith ariannu sy'n seiliedig ar anghenion i sicrhau "cyllid tecach i Gymru".

**Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn**, gan ychwanegu ei bod "wedi dadlau ers amser hir y dylai adnoddau gael eu dyrannu ledled y DU ar sail

[3] Wedi'i addasu o **Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025/26**

angen cymharol".

### Ymrwymiadau Llafur y DU

**Nododd** maniffesto Plaid Lafur y DU ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2024 fod y Blaid Lafur yn cydnabod bod Fframwaith Cyllidol Cymru wedi dyddio. Ymrwymodd felly i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y fframwaith yn rhoi gwerth am arian gyda dwy lywodraeth Lafur wedi ymrwymo i gyfrifoldeb cyllidol.

Ym mis Tachwedd 2024, **nododd** Llywodraeth y DU nad oedd ganddi unrhyw gynlluniau i adolygu Fformiwla Barnett.

## Anghydfodau ynghylch cyllid rheilffyrdd

Yn y blynyddoedd diwethaf, bu **anghytundebau rhwng** Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch cyllid canlyniadol ar gyfer HS2. Er i'r Alban a Gogledd Iwerddon gael cyllid o ganlyniad i wariant ar y prosiect, nid yw hyn yn wir i Gymru.

Ym mis Mawrth 2023, **galwodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd, Rebecca Evans AS, ar Lywodraeth y DU** i ddarparu'r "£5 biliwn o gyllid canlyniadol sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru".

Yn fwy diweddar, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford AS, wedi **amcangyfrif** y byddai Llywodraeth Cymru y "byddai Llywodraeth Cymru wedi cael £431 miliwn yn ychwanegol rhwng 2016-17 a 2025-26 pe bai ganddi gymharedd â HS2 yn fformiwla Barnett".

Mewn cyfarfod o'r **Pwyllgor Materion Cymreig ym mis Chwefror 2025**, dywedodd y Prif Weinidog fod dosbarthu HS2 fel 'prosiect Cymru a Lloegr' yn warthus, ac ychwanegodd y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

> …we will keep on pushing the UK Government and mak[e] it clear that we think that that classification was incorrect. It is not just something that has happened; it is something that will be ongoing, so we will keep on making the case.

Er ei bod yn awgrymu ei bod yn anhebygol y bydd Llywodraeth y DU yn ailddosbarthu HS2, croesawodd y Prif Weinidog y **gydnabyddiaeth Llywodraeth y DU** o'r ffaith i reilffyrdd Cymru gael eu tanariannu'n hanesyddol, a mynegwyd gobaith y bydd Datganiad y Gwanwyn sydd ar ddod yn cynnwys arian i ddechrau mynd i'r afael â hyn.

## Cyfiawnder

Yn sgil cyhoeddi'r **Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru**, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi datganoli cyfiawnder i Gymru yn gyson. Yn ei **adroddiad cynnydd** ar ei raglen waith cyfiawnder, dywedodd y cyn Gwnsler Cyffredinol, Mick Antoniw AS:

> Mae datganoli cyfiawnder yn rhan hollbwysig o'r diwygiadau angenrheidiol sydd angen eu gweithredu os ydym am sicrhau system gyfreithiol a chyfiawnder fodern, blaengar ac effeithiol, ar gyfer pobl Cymru ac yn atebol i bobl Cymru.

Mae'r **adroddiad cynnydd** yn nodi'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i baratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder, gan gynnwys comisiynu adolygiad o'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, gofyn i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru fwrw ymlaen â darn o ymchwil ar ddatganoli gwasanaethau prawf, a chyhoeddi adroddiad yn archwilio manteision a risgiau datganoli plismona.

Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi **tendr** allan am raglen ymchwil i gynorthwyo ei gwaith paratoi ar gyfer y posibilrwydd o ddatganoli plismona a chyfiawnder.

**Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**

**Argymhellodd** y Comisiwn y dylai cyfrifoldeb dros gyfiawnder a phlismona gael ei ddatganoli i Gymru, ac y dylai hyn ddechrau gyda datganoli plismona, y gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuenctid. **Croesawodd** Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn.

Gwnaeth **maniffesto Llafur y DU** ymrwymiadau ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2024 i ystyried datganoli rhai elfennau o'r system gyfiawnder:

> As part of the strategic review into probation, we will explore the devolution of services to enable them to be more locally responsive. We will work with the Welsh Labour Government to consider devolution of youth justice.

Ym mis Chwefror 2025, **dywedodd** y Prif Weinidog fod sgyrsiau'n parhau ynglŷn â datganoli cyfiawnder ieuenctid, ond bod yna feysydd lle mae Llywodraeth Cymru am fynd ymhellach nag y mae Llywodraeth y DU am iddi fynd. O ran datganoli plismona, dywedodd:

> We have been clear in Welsh Government that policing is an area where we would like to see further devolution, but that is not necessarily where the UK Government are at this point.

## Lles

Mae'r rhan fwyaf o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol yng Nghymru wedi'u cadw yn ôl, ac yn cael eu gweinyddu'n bennaf gan Adran Gwaith a Phensiynau'r DU. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol mewn perthynas â meysydd datganoledig, fel tai, addysg a sgiliau.

Galwodd **Cytundeb Cydweithio** Llywodraeth Cymru gyda Phlaid Cymru am ddatganoli'r system gweinyddu lles, ac ymrwymodd i "ymchwilio i'r seilwaith sy'n angenrheidiol er mwyn paratoi ar gyfer hyn". **Daeth Plaid Cymru â'r Cytundeb Cydweithio i ben** ar 17 Mai 2024.

**Ymrwymodd** maniffesto Plaid Lafur y DU ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2024 i ddatganoli pwerau dros gyllid cymorth cyflogaeth i Lywodraeth Cymru. Ymrwymodd hefyd i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, ynghyd â Meiri ac Awdurdodau Cyfunol yn Lloegr, i sicrhau bod pob agwedd ar ymagwedd newydd y blaid at Ganolfannau Byd Gwaith a'u cymorth cyflogaeth yn cyd-fynd yn effeithiol â darpariaeth ddatganoledig.

Ym mis Mehefin 2024, **nododd** Llywodraeth Cymru:

> We are however exploring the necessary infrastructure which would be required to prepare for any devolution of the administration of welfare…

Ychwanegodd:

> We are currently commissioning independent research that will provide an evidence-based summary of how the devolution of the administration of social security to the Welsh Government could be taken forward and the potential benefits and consequences of doing so.

### Pwerau'r Alban

Gwnaeth *Deddf yr Alban* 2016 **ddatganoli pwerau** dros les i Senedd yr Alban.

Er enghraifft, mae pwerau dros y meysydd canlynol **wedi eu datganoli** i Senedd yr Alban:

- Taliad Anabledd Plant: cymorth i blant anabl a'u teuluoedd;
- Credyd Cynhwysol: mae hwn yn fudd-dal a gadwyd yn ôl ond mae rhai pwerau ynghylch sut y caiff ei dalu wedi'u datganoli. Er enghraifft, gall pobl yn yr Alban ddewis cael eu talu naill ai bob mis neu bob pythefnos;
- Taliad Gwresogi Gaeaf i Bobl Oedran Pensiwn (a fydd yn disodli Taliad Tanwydd Gaeaf y DU).

### Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

Dywedodd **is-grŵp lles** y Comisiwn fod datganoli budd-daliadau i'r Alban wedi bod yn "yn gymhleth ac yn ddrud" oherwydd "oherwydd costau sefydlu Social Security Scotland a'r galw ychwanegol sy'n deillio o ddiwygiadau'r Alban".

Ychwanegodd fod ffocws Llywodraeth Cymru ar "wella gweithrediad budd-daliadau sydd eisoes wedi'u datganoli, er mwyn creu system fudd-daliadau ddiwygiedig i Gymru", ac nad yw datganoli pwerau pellach yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Mae'r adroddiad **yn cynnwys papur** gyda mwy o fanylion am ddatganoli pwerau lles yn yr Alban.

## Siarter Budd-daliadau Cymru

Ym mis Ionawr 2024, cytunodd Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r 22 o awdurdodau lleol ar **Siarter Buddiannau Cymru**. Mae'r Siarter yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau, er mwyn datblygu cymunedau sy'n wydn yn ariannol, gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel, a lleihau'r angen am gymorth brys megis banciau bwyd.

Mae'r prif 'Fudd-daliadau Cymru' **a nodwyd gan Lywodraeth Cymru** yn cynnwys Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Cinio Ysgol Am Ddim, a'r Grant Hanfodion Ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu system sy'n "gydlynol a thosturiol", ac wedi sefydlu a **Grŵp llywio Symleiddio Budd-daliadau Cymru** i ddatblygu'r gwaith hwn.

Ym mis Ionawr 2025, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun** yn nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i ddatblygu cam un o'i gwaith yn y maes hwn erbyn mis Ebrill 2026, er bod disgwyl, yn wreiddiol, i hyn **ddigwydd fis Medi diwethaf.** Nod y **cynllun yw sicrhau** "i sicrhau y gall pobl hawlio eu hawl i ostyngiad yn y dreth gyngor, prydau ysgol am ddim a'r grant hanfodion ysgol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn mis Ebrill 2026". Mae Llywodraeth Cymru wedi **dyrannu £500,000 yn ychwanegol i gefnogi'r gwaith hwn**, ac wedi **canolbwyntio ar y grantiau hyn** wrth i'w meini prawf cymhwystra alinio, ac mae'n dweud bod arferion da yn bodoli eisoes mewn rhai awdurdodau lleol y gellir eu datblygu ymhellach.

## Ystad y Goron

Mae **Ystâd y Goron** yn gasgliad o asedau morol a thir a daliadau sy'n perthyn i'r frenhines sy'n teyrnasu.

Defnyddir y term "Ystâd y Goron" hefyd ar y corff sy'n gweinyddu'r ystâd, a sefydlwyd gan ***Ddeddf Ystad y Goron 1961*** ac a gaiff ei arwain gan fwrdd - **Comisiynwyr Ystâd y Goron**. Mae'n annibynnol ar y llywodraeth a'r frenhines gyda **swyddogaeth gyhoeddus i**:

1. fuddsoddi mewn asedau eiddo penodol sy'n perthyn i'r Frenhines a'u rheoli; a
2. rhoi ei warged refeniw bob blwyddyn i gronfa gyfunol y DU.

Sefydlwyd **Crown Estate Scotland** yn 2017 fel corfforaeth gyhoeddus i oruchwylio'r broses o reoli asedau Ystad y Goron yn yr Alban, pan ddatganolwyd y cyfrifoldeb am reoli asedau Ystad y Goron yn yr Alban i Senedd yr Alban.

**Safbwynt hirsefydlog** Llywodraeth Cymru yw y dylai Ystad y Goron gael ei datganoli i Gymru yn unol â'r sefyllfa yn yr Alban.

Ers etholiad cyffredinol 2024, bu **trafodaethau pellach** yn y Senedd am y posibilrwydd o ddatganoli rheolaeth dros Ystad y Goron i Gymru. **Nid yw Llywodraeth y DU yn cefnogi hyn**.

**Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**

**Argymhellodd y Comisiwn** y dylid creu grŵp arbenigol newydd i (ymysg pethau eraill) gynghori ar opsiynau ar gyfer datganoli Ystad y Goron i Gymru.

**Croesawodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad** ar gyfer y grŵp, a dywedodd ei bod yn cefnogi datganoli Ystad y Goron.

Ar adeg ysgrifennu'r papur hwn, **roedd adroddiad yn y wasg yn nodi bod** 17 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi pasio cynigion yn cefnogi datganoli pwerau dros Ystad y Goron yng Nghymru.

### Bil Ystad y Goron

Ym mis Gorffennaf 2024, cyflwynodd Llywodraeth y DU ***Fil Ystad y Goron***, sydd **â'r nod o foderneiddio** gweithrediad Ystad y Goron.

Bydd y Bil **yn creu** comisiynwyr â chyfrifoldeb arbennig, ac mae'n rhaid iddynt

gynnwys comisiynydd sy'n gyfrifol am roi cyngor am Gymru mewn perthynas â gweithrediad Ystad y Goron. Rhaid i Lywodraeth y DU ymgynghori â Gweinidogion Llywodraeth Cymru cyn penodi'r comisiynydd.

Cafodd **gwelliant i *Fil Ystad y Goron*** i ddatganoli rheolaeth dros Ystad y Goron yng Nghymru i Gymru ei wrthod yn Nhŷ'r Cyffredin.